

## BRUCE, WILLIAM NAPIER (1858 - 1936)

**Enw:** William Napier Bruce  
**Dyddiad geni:** 1858  
**Dyddiad marw:** 1936  
**Rhiant:** Nora Bruce (née Napier)  
**Rhiant:** Henry Austin Bruce  
**Rhyw:** Gwryw  
**Maes gweithgaredd:** Addysg; Cyfraith  
**Awdur:** James Frederick Rees

Ail fab yr **Arglwydd Aberdâr cyntaf** a Nora, ferch Syr William Napier. Ganwyd 18 Ionawr 1858 yn Duffryn, Aberdâr. Cafodd ei addysg yn Harrow a Choleg Balliol, Rhydychen. lle y graddiodd (1880) gydag anrhydedd yn y clasuron. Fe'i derbyniwyd yn fargyfreithiwr (Lincoln's Inn) yn 1883, a thair blynedd yn ddiweddarach cychwynnodd ar ei yrfa hir fel comisiynydd cynorthwyol yn y 'Charity Commission under the Endowed Schools Acts.' Daeth ei ddyletswyddau yn y swydd hon ag ef i adnabyddiaeth drylwyr o broblemau addysg ganolradd yn Lloegr a Chymru; naturiol, felly, ydoedd ei ddewis yn ysgrifennydd y comisiwn ar addysg ganolradd a fu'n casglu tystiolaethau o dan lywyddiaeth James Bryce yn 1894-5; pan oeddid yn trafod manylion y 'Welsh Intermediate Education Act' (1889), Bruce a gynrychiolai y 'Charity Commission' mewn cynadleddau gyda gwahanol bwyllgorau addysg Cymru a Mynwy. Pan drosglwyddwyd adran addysg gwaith y 'Charity Commission' yn 1900 i'r Bwrdd Addysg daeth Bruce yn un o is-ysgrifenyddion y Bwrdd; yn 1903 daeth yn uwch ei safle fel is-ysgrifennydd.

Hyd 1921, pryd yr ymneilltuodd o wasanaeth y Bwrdd, parhaodd i ddylanwadu'n ddwfn ar ddatblygiad addysg ganolradd, yn enwedig yn yr ysgolion a sefydlwyd o dan Ddeddf Addysg 1902. Efe oedd cadeirydd y pwyllgor adrannol ar addysg ganolradd yng Nghymru (1919-20) a wnaeth ei adroddiad yn 1920 ac a gymeradwyodd, ymysg pethau eraill, sefydlu cyngor cenedlaethol yng Nghymru i wneud awgrymiadau ynglŷn ag addysg.

Yr oedd Bruce yn aelod o'r pwyllgor adrannol ar le'r iaith Gymraeg yng nghyfundrefn addysg Cymru (1925-7). Yn 1929 dilynodd yr **Arglwydd Kenyon** yn ddirprwy-ganghellor Prifysgol Cymru. Efe oedd is-gadeirydd y comisiwn brenhinol ar addysg brifathrofaol yng Nghymru (1916-8), ac felly'n gyfarwydd iawn â phroblemau prifysgol ffederal; llywyddai bob amser yng nghynghorau'r Brifysgol ac yn ei chyfarfodydd cyhoeddus gyda barn ac urddas. Ei ddau gyhoeddiad pwysicaf oedd *The Life of General Sir Charles Napier* (Llundain, 1885), a *Sir A. Henry Layard: Autobiography and Letters* (Llundain, 1903). Fe'i gwnaethpwyd yn C.B. yn 1905 ac yn C.H. yn 1935. Bu farw yn Bath, 20 Mawrth 1936.

### Awdur

**Syr James Frederick Rees**, (1883 - 1967)

### Ffynonellau

Percy E. Watkins, *A Welshman Remembers. An autobiography, etc.* (Caerdydd 1944)

T. I. Ellis, *The Development of Higher Education in Wales* (Wrecsam 1935)

*The Times*, 21 Mawrth 1936

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q19975438

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

[Gwirannu](#)

Arddull APA

x

Rees, J. F., (1953). BRUCE, WILLIAM NAPIER (1858 - 1936). Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 9 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-BRUC-NAP-1858>

Q19975438

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government